

# ProMo-Cymru Fasnachol Cyf

## Creu Sgyrsiau

Disgrifiad Swydd – Eiriolwr Gynghorwr Sesiynol ar gyfer Llinell Gymorth Gweithredu Cymdeithasol

**Graddfa tâl:** £14 yr awr

**Lleoliad:** Gweithio o adref

**Dan gyfeiriad:** Mentor Ymgynghorol

**Gweledigaeth:** Yn gweithio i sicrhau bod pobl ifanc a chymunedau yn wybodus, yn gysylltiedig ag yn cael eu clywed.

**Dull gweithio:** Mae ProMo-Cymru yn gweithio gyda chymunedau gan ddefnyddio cyfathrebiadau, eiriolaeth, cysylltiad diwylliannol, cynhyrchiad digidol a chyfryngol. Mae'r gwaith yma yn cael ei ddylanwadu gan dros 20 mlynedd o gyflwyno prosiectau gwybodaeth ieuenctid digidol. Rydym yn rhannu'r wybodaeth yma drwy hyfforddiant ac ymgynghoriad, yn creu partneriaethau hir dymor sydd o fudd i bobl a sefydliadau.

### Amcan:

- hwyluso'r broses o sicrhau hawliau plant a phobl ifanc (PPhI)
- grymuso a galluogi PPhI i wneud penderfyniadau gwybodus
- cyfarparu PPhI gyda sgiliau a gwybodaeth i gyflawni newidiadau yn eu bywydau
- helpu hyrwyddo gwytnwch ac iechyd a lles PPhI
- galluogi i leisiau PPhI gael eu clywed i ddylanwadu ar newid ac i wneud gwahaniaeth

Am wybodaeth bellach ymwelwch â:

ProMo-Cymru: [www.promo.cymru](http://www.promo.cymru)

Meic: [www.meic.cymru](http://www.meic.cymru)

### Cyfrifoldebau:

- Ymateb ac ymdrin â chysylltiadau ar y ffôn, e-byst, negeseuon testun a negeseuon sydyn
- Ymdrin â chysylltiadau o amrywiaeth eang o ffynonellau gan gynnwys plant, pobl ifanc, rhieni, gofalwyr, gweithwyr proffesiynol, eraill sydd yn pryderu.

- Ymdrin â chysylltiadau yn ymwneud ac amrywiaeth eang o anghenion a materion gofal / cefnogaeth gymdeithasol
- Ymateb i gysylltiadau a darparu gwybodaeth gywir, berthnasol ac addas
- Ymateb i gysylltiadau a chyfeirio unigolion i asiantaethau a gwasanaethau wyneb i wyneb perthnasol yn y trydydd sector a'r sector cyhoeddus, fel sydd ei angen
- Ymateb i gysylltiadau a chyfeirio unigolion i adnoddau ar-lein perthnasol, fel sydd ei angen
- Ymateb i gysylltiadau a darparu cymorth ac / neu eiriolaeth wrth hyrwyddo hunan-eiriolaeth, eiriolaeth anffurfiol, eiriolaeth ffurfiol, darparu cynrychiolaeth uniongyrchol, cyfeirio at wasanaethau eiriolaeth annibynnol / statudol
- Ymdrin â diogelu, a chysylltiadau a phryderon bygythiad i fywyd, fel sydd ei angen ac yn unol â pholisïau a gweithdrefnau
- Cynnal cofnodion ysgrifenedig addas, casglu data monitro, a chofnodi holl wybodaeth berthnasol, fel sydd ei angen
- Derbyn a chysylltu gyda threfniadau ar gyfer cefnogaeth
- Mynychu, cymryd rhan a chysylltu gyda chyfnewidfeydd ymarferiad, hyfforddiant mewnol, cyfarfodydd tîm, ac unrhyw gyfarfodydd mewnol eraill sydd yn berthnasol ac yn addas
- Cefnogi cyd-weithwyr
- Gwiriad DBS clir

### **Manylion y Swydd – Eiriolwr Gynghorwr Sesiynol ar gyfer Llinell Gymorth Gweithredu Cymdeithasol**

- Dysgu a datblygiad o'r gorffennol, diweddar a chyfredol sydd yn berthnasol i'r swydd hon
- Eich dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r CCUHP, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Eiriolaeth, Iechyd Meddwl a Llesiant Emosiynol (IMLIE)
- Eich profiad o weithio gyda PPhl, a'r adnoddau a'r gwasanaethau sydd yn agored iddynt
- Sgiliau cyfathrebu gwych (gan gynnwys ffôn, neges testun a negeseuo ar-lein) fel eich bod yn gallu sefydlu perthynas, ac i ymdrin ag amrywiaeth o emosiynau a phryderon sydd yn cael eu cyflwyno
- Amrediad da o sgiliau ymyriad gan gynnwys rhoi gwybodaeth, hyfforddi, cyfeirio, argyfwng / trallod

- Gwerthoedd a phriodoleddau i gynnwys: dibynadwyedd, seiliedig ar hawliau, cydraddoldeb, gyda ffocws ar ddatrysiad (stopio / cychwyn / newid), hunan ymwybyddiaeth

